

**CYNGOR CYMUNED LLANSANTFFRAED  
LLANSANTFFRAED COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a  
gynhaliwyd am 7:30 pm ar nos  
Fawrth, 6ed Ebrill 2021 drwy fynychu  
o bell**

**Minutes of a meeting of the Council  
held at 7:30 pm on Tuesday, 6<sup>th</sup> April  
2021 by way of remote attendance**

Yn bresennol:  
Cadeirydd: y Cynghorydd Gwenno Piette; y Cynghorwyr Sheila Davies, Lowri Jones. Dennis Morgan, Bryan Tomlins a Phil Tomlins.  
Cynghorydd Sir Dafydd Edwards  
Mr Denfer Morgan (Clerc)

Present:  
Chairman: Gwenno Piette; Councillors: Councillors Sheila Davies, Lowri Jones, Dennis Morgan, and Bryan Tomlins and Phil Tomlins.  
County Councillor Dafydd Edwards  
Denfer Morgan (Clerk)

**622 Ymddiheuriadau a Threfn**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Jim Hughes ac Aled Roberts am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.  
Ymddiheurodd y Cynghorydd Phil Tomlins am fethu a bod yn bresennol yn rhan cyntaf y cyfarfod ac, yn ei absenoldeb, cadeiriwyd y Cyfarfod i gyd gan y Gwenno Piette, Is-gadeirydd y Cyngor.  
(Fe ymunodd y Cynghorydd Tomlins yn y cyfarfod am 8:15pm.)

**622 Apologies and Procedure.**

Councillors Jim Hughes and Aled Roberts apologised for their inability to attend the meeting.  
Councillor Phil Tomlins apologised for not being unable to attend the first part of the meeting and, in his absence, the whole meeting was chaired by Councillor Gwenno Piette, the Vice Chairman of the Council.  
(Councillor Tomlins joined the meeting at 8:15pm.)

**623 Cofnodion o'r Cyfarfod Misol a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2021**  
Cadarnhawyd cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2021 fel rhai cywir.

**623 Minutes of the Monthly Meeting held on 2<sup>nd</sup> March 2021**  
The Minutes the Meeting of the Council held on 2<sup>nd</sup> March 2021 were confirmed as being a correct record.

**624 Materion yn codi o'r Cofnodion**

- a) Cofnod 610a) – nodwyd bod y darnau o weiar a oedd yn allwthio ar lwybrau troed 33/1 a 33/25 wedi'u codi ond bod angen eu gosod yn iawn o hyd.
- b) Cofnod 621a) – dywedodd y Cynghorydd Bryan Tomlins ei fod wedi trafod y rhwystr ar lwybr Brynadsain gyda'r gwr bonheddig perthnasol, a oedd newid symud i'r ardal, a'i fod nawr wedi darparu lle i barcio ei gar.
- c) Cofnod 621b) – hyfforddiant tenis. Darlennodd y Clerc ebost oddi wrth Alison Reed yn dweud na fyddai'n gallu parhau i ddarparu sesiynau hyfforddiant

**624 Matters arising from the Minutes**

- a) Minute 610a) – it was noted that the protruding wires along footpaths 33/1 and 33/25 had been lifted but were still in need of fixing.
- b) Minute 621a) – Councillor Bryan Tomlins stated that he had discussed the obstruction of the Brynadsain path with the gentleman concerned, who had just moved to the area, and that he had now provided a parking area for his car.
- c) Minute 621b) - Tennis training. The Clerk read an email from Alison Reed stating that she would not be able to continue providing tennis coaching sessions for

tenis am resymau personol.

**PENDERFYNWYD:**

- i) nodi penderfyniad Ms Reed ac i ddiolch iddi am ddarparu'r gwasanaeth hyn i'r plant yn y gorffennol; a
- ii) gofyn i'r Clerc ymchwilio'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb am ddarparu sesiynau hyfforddiant yn y dyfodol.

**625 Y Man Chwarae**

Rhodddwyd ystyriaeth i gais a dderbyniwyd oddi wrth Ms Rachel Jones i'r Cyngor ystyried gwella'r man chwarae ar gyfer pob oedran. Rhodddwyd ystyriaeth penodol i gyflwr yr arwyneb diogelwch.

**PENDERFYNWYD** sefydlu gweithgor i ystyried y cynrychioliadau a dderbyniwyd a gwneud argymhellion i'r Cyngor. Aelodaeth y gweithgor i gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ac unrhyw Aelod arall gyda diddordeb yn y mater, ac i wahodd Ms Rachel Jones ac unrhyw aelod arall o'r cyhoedd gyda diddordeb yn y mater i wasanaethu ar y gweithgor.

**626 Y Chalet**

Nodwyd bod y gwaith o godi'r adeilad newydd yn dirwyn i ben. Rhodddwyd ystyriaeth i'r prisoedd isod a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ychwanegol yn ymwneud â'r chalet newydd, sef:-

- swm o £220 ar gyfer codi ramp wrth y fynedfa
- swm o £828 ar gyfer Darparu sylfeini concriid ar gyfer adleoli pump o feinciau.

**PENDERFYNWYD:**

- i) nodi'r sefyllfa bresennol;
- ii) derbyn y ddau bris ac i drefnu fod y gwaith yn mynd yn ei flaen cyn gynted a phosib;
- iii) prynu dwy fainc newydd wedi'u gwneud o ddefnydd a ailgylchwyd; a
- iv) ystyried ar yr amser priodol

personal reasons.

It was **RESOLVED:**

- i) to note Ms Reed's decision and to thank her for providing this service to the children in the past ; and
- ii) to request the Clerk to investigate options for the Council taking responsibility for providing training sessions in future.

**625 Playground**

Consideration was given to a request received from Ms Rachel Jones for the Council to consider improving the facilities available at the playground for all age groups. Particular consideration was given to the condition of the safety surface.

It was **RESOLVED** to establish a working group to consider the representations received and make recommendations to the Council on improving facilities. The working group to comprise the Chairman and Vice-Chairman and any other interested Member; and to invite Ms Rachel Jones and other interested members of the public to serve on the group.

**626 The Chalet**

It was noted that the new building was nearing completion. Consideration was given to the following quotations received for additional work relating to the new chalet and the slang, namely:-

- a sum of £220 for the construction of a ramp at the entrance
- a sum of £828 for providing new concrete bases for the relocation of five benches.

It was **RESOLVED:**

- i) to note the current position;
- ii) to accept both quotations and arrange for the work proceed as soon as possible;
- iii) to buy two benches made of recycled material; and
- iv) to consider acquiring at the appropriate time further outdoor

cael gafael ar ragor o gelfi awyr agored e.e. bwrdd picnic; ac i gytuno i ddilyn i fyny cynnig o noddi'r gost yma gan fushes lleol.

furniture for the chalet area e.g. picnic table; and to agree to follow up the offer of sponsorship by a local business in this regard.

**627 Materion Ariannol – Talu Anfonebau PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Tanysgrifiad Blynyddol Un Llais Cymru - £208  
Smartseal Moss Remover - £29.95  
Dan Lewis – Sylfaen goncrid y Chalet Newydd - £540 (cafodd ei gynnwys yn y cais am grant)  
Dan Lewis – arwyddbost llwybr Albion Fields - £58.

**628 Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'r ddau gais am gymorth ariannol a ohiriwyd yn y cyfarfod blaenorol.

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

- a) o ran Grŵp Coffi Llanon, nodi fod cyfrif banc Newydd wedi'i roi yn ei le, ac i gyfrannu £50
- b) o ran Neuadd Bentref Llanon, nodi'r gwybodaeth a dderbyniwyd am wariant 2020 ac i gyfrannu £200.

**629 Ceisiadau Cynllunio**  
Rhoddwyd ystyriaeth i'r ddau gais cynllunio isod:-

A210175 - Penfor Fawr, Llanrhystud.  
Proposed animal housing shed

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

A210210 - Morwylfa, 5 Penbanc, Heol yr Esgob, Llanon. Proposed alteration and erection of an extension.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**627 Finance Matters – Payment of Invoices**  
It was **RESOLVED** to pay the following:

One Voice Wales Annual Subscription - £208  
Smartseal Moss Remover - £29.95  
Dan Lewis – New Chalet concrete base - £540 (included in the grant application)  
Dan Lewis – Albion Fields footpath fingerpost - £58.

**628 Applications for Financial Assistance**  
Consideration was given to the additional information requested in respect of the two applications received for financial assistance deferred at the last meeting.

It was **RESOLVED** as follows:-

- a) with regard to the Llanon Coffee Group, to note that a new bank account had been set up, and to make a contribution of £50
- b) with regard to the Llanon Village Hall, to note the information received on expenditure in 2020 and to make a contribution of £200.

**629 Planning Applications**  
Consideration was given to the following two planning applications:-

A210175 - Penfor Fawr, Llanrhystud.  
Proposed animal housing shed

**Decision:** No objection.

A210210 - Morwylfa, 5 Penbanc, Heol yr Esgob, Llanon. Proposed alteration and erection of an extension.

**Decision:** No objection.

**630 Cynllun Grant Cymunedol Wales and West**

**PENDERFYNWYD** nodi fod y Clerc mewn cysylltiad gyda Gymdeithas Tai parthed y cynnig o roddi cymorth i brosiectau cymunedol a wnaed ganddynt.

**631 Cais am Gyfyngiad cyflymder ar yr A487 ar ran ddeheuol Llanon**

Rhododd y Clerc diweddariad ar y sefyllfa presennol gan gyfeirio at ateb a gafwyd gan Elin Jones AS oddi wrth Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cais am gyfyngiad cyflymdra 30mya ar ochr ddeheuol Llanon a oedd yn dweud *“Although a 30 mph limit would not normally apply in this location, we will review it”*.

**PENDERFYNWYD** nodi gyda phleser ymateb diweddaraf Llywodraeth Cymru ac i aros am ganlyniad yr adolygiad.

**632 Rhandir Cymunedol**

Rhoddwyd ystyriaeth pellach i'r cynnig o dir ar gyfer darparu rhandir cymunedol ac adroddodd y Clerc gwybodaeth a dderbyniwyd parthed lleoliad y darn cul o dir a oedd yn cael ei gynnis o fewn y llain ehangach, a oedd yn ffinio'n uniongyrchol gyda chefnau eiddo yn James Close; ac i statws y fynedfa, y credwyd fod yr hawl i fynediad yn cael ei rannu gyda pherchnogion tir arall ar y llain.

**PENDERFYNWYD** diolch i berchnogion y tir am eu cynnig hael ond i'w hysbysu nad oedd y Cyngor am fwrw mlaen i gael prydles ar y tir at y pwrpas o ddarparu rhandir cymunedol oherwydd ei leoliad a statws y fynedfa i'r tir.

**633 Lle Gwag ar y Cyngor**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad ar y tri cais a dderbyniwyd ar gyfer eu cyfethol i wasanaethu fel Cyngorydd ar gyfer y cyfnod Mai 2021 – Mai 2022 (pan y

**630 Wales and West Community Grant Scheme**

It was **RESOLVED** to note that the Clerk stated that he was in touch with the Housing Association with regard to their offer of assistance with community projects reported at the last meeting.

**631 Speed limit Request on the A487 at the southern end of Llanon**

The Clerk up-dated Members on the current situation and referred to a further response received by Elin Jones MS from the Deputy Minister for Economy and Transport at the Welsh Government in respect of the request for a 30mph speed limit at the southern end of Llanon which stated *“Although a 30 mph limit would not normally apply in this location, we will review it”*.

It was **RESOLVED** to note the latest Welsh Government response with pleasure and await the outcome of the review.

**632 Community Allotment**

Further consideration was given to the offer of land for the provision of a community allotment and the Clerk reported information received relating to the location of the narrow strip of land on offer within the larger slang, being immediately adjacent to the backs of the properties at James Close; and the status of entrance, which was believed to be a shared right of access with other owners of land at the slang.

It was **RESOLVED** to thank the landowners for their kind offer of land but to inform them that the Council did not wish to proceed to lease the land for the purpose of providing a community allotment due to its location and the status of the entrance to the land.

**633 Vacancy on the Council**

The Clerk presented his report on the three applications received for co-option to serve as a Councillor for the period May 2021-May 2022 (when an election of

byddai etholiad o'r Cyngor I gyd yn cael ei gynnal).  
Cyfeiriodd y Clerc at y cynsail a osodwyd yng nghyfarfod Mai 2019 pan yn cyfethol Aelod newydd pryd y cafodd pleidleisiau eu derbyn oddi wrth Aelodau nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod a dweud fod ganddo pleidleisiau'r Cynghorwyr Jim Hughes ac Aled Roberts, a oedd wedi ymddiheuro nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfod heno. Dywedodd nad oedd y Cynghorydd Lodwick Lloyd wedi cysylltu gydag ef cyn y cyfarfod ac nid oedd ganddo wybodaeth am yr ymgeisydd yr oedd yn ei ffafrio. Cytunwyd bwrw mlaen gyda'r bleidlais a arweiniodd at y canlyniad canlynol:-

Mr Keith Henson – 3 pleidlais  
Mr Andrew Phillips – 5 pleidlais  
Mr D Sinclair – dim pleidlais.

**PENDERFYNWYD** felly cyfethol Mr Andrew Phillips i wasanaethu fel Aelod o'r Cyngor tan etholiad mis Mai 2022.

Cytunwyd, wrth gysylltu gyda'r ddau ymgeisydd aflwyddiannus, fod y Clerc yn mynegu gwerthfawrogiad yr Aelodau am gyflwyno cais ac i'w hannog i ystyried sefyll yn etholiad Mai 2022.

Cytunwyd hefyd cyfleu canlyniad y bleidlais i'r Cynghorydd Lodwick Lloyd, ac i ofyn iddo am ei bleidlais arfaethedig, er mwyn ei nodi yn y cofnodion.

**634 Ciosg Teleffôn Cyhoeddus yn Llanon**  
Cyfeiriodd y Clerc at erthygl a ymddangosodd yn y Cardigan and Tivyside Advertiser fod y ciosg yn Llanon yn un o nifer y bwriedir ei ddadgomisiynu a'i gynnig i'r gymuned gan BT. Ar gais y Cadeirydd, roedd wedi cysylltu gyda BT gan gofrestru diddordeb y Cyngor i gael gafael ar y ciosg. Dywedodd ei fod wedi derbyn yr ateb canlynol:  
*We are just putting the finishing touches to our proposals for Ceredigion, but I*

the whole Council would be held).  
The Clerk referred to the precedent set at the May 2019 meeting when a new Member had been co-opted whereby votes had been accepted from absent Members and stated that he was in possession of the votes of Councillors Jim Hughes and Aled Roberts, who had apologised for their inability to attend tonight's meeting. He stated that Councillor Lodwick Lloyd had not been in contact before the meeting and he did not have any indication of his preferred candidate.

It was agreed to proceed with the voting, which produced the following result:-

Mr Keith Henson – 3 votes  
Mr Andrew Phillips – 5 votes  
Mr D Sinclair – no votes.

It was therefore **RESOLVED** that Mr Andrew Phillips be co-opted to serve as a Member of the Council until the May 2022 election.

It was agreed that, when contacting the two unsuccessful applicants, the Clerk conveys the Members' appreciation for applying and to urge them to consider standing at the May 2022 election.

It was also agreed to inform Councillor Lodwick Lloyd of the outcome of the vote and to request the details of his proposed vote for recording in the minutes.

**634 Public Telephone Kiosk at Llanon**  
The Clerk referred to an article which had appeared in the Cardigan and Tivyside Advertiser that the kiosk at Llanon was one of a number being decommissioned and offered to the community by BT. At the request of the Chairman he had contacted BT registering the Council's interest in acquiring the kiosk. He stated that the following response had been received:  
*We are just putting the finishing touches to our proposals for Ceredigion, but I can*

*can confirm that the Llanon box is one of those we are planning to propose for removal.*

*Under the consultation process, we ask interested parties to let Ceredigion Council (it's usually the Planning Department that deals) have any comments/feedback and this would include interest in adoption, as Ceredigion would need to approve the removal of telephony and pass on your details to us in their response to the consultation.*

*As we are not quite ready to commence our consultation with Ceredigion, I would suggest holding fire briefly - you might want to look out for a notice to be placed in the kiosks (we normally commence the consultation within a couple of days of this happening), or please feel free to contact us again in a couple of weeks and we'll see where we are then.*

**PENDERFYNWYD:**

- i) cytuno mewn egwyddor i brynu'r ciosg am £1; a
- ii) awdurdodi'r Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir o benderfyniad y Cyngor pan y byddant yn cysylltu ac i gymryd y camau angenrheidiol i brynu'r ciosg.

**635 Unrhyw fater cymwys arall**

- a) Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Sheila Davies, **PENDERFYNWYD** cytuno i gynhyrchu taflen wybodaeth yn amlinellu materion lleol ar gyfer Aelodau newydd-etholedig yn etholiad y flwyddyn ganlynol, yn ogystal a'r llenyddiaeth gyfredinol a ddarperir iddynt.
- b) Cafwyd trafodaeth mewn cysylltiad â'r cynrychioliadau a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Davies parthed gwaredu'r banc poteli a gwybodaeth am y casgliadau ailgylchu a gwastraff. Cytunwyd taw cyfrifoldeb trigolion oedd dod o hyd i'r gwybodaeth hyn a oedd ar gael ar wefan y Cyngor Sir.
- c) Mynegodd y Cynghorydd Bryan Tomlins byrder fod Heol y Môr yn cael ei rwystro

*confirm that the Llanon box is one of those we are planning to propose for removal.*

*Under the consultation process, we ask interested parties to let Ceredigion Council (it's usually the Planning Department that deals) have any comments/feedback and this would include interest in adoption, as Ceredigion would need to approve the removal of telephony and pass on your details to us in their response to the consultation.*

*As we are not quite ready to commence our consultation with Ceredigion, I would suggest holding fire briefly - you might want to look out for a notice to be placed in the kiosks (we normally commence the consultation within a couple of days of this happening), or please feel free to contact us again in a couple of weeks and we'll see where we are then.*

It was **RESOLVED** to:

- i) agree in principle to seek to purchase the kiosk for a £1; and
- b) to authorise the Clerc to notify the County Council of the Council's decision when contacted by them and take all necessary steps to acquire the kiosk.

**635 Any Other Competent Business**

- a) At the suggestion of Councillor Sheila Davies, it was **RESOLVED** to agree to produce a factsheet outlining local matters for newly-elected Members at next year's elections, in addition to the general literature provided to them.
- b) A discussion also took place in respect of representations received by Councillor Davies in respect of the loss of the bottlebank and information on recycling and refuse collections. It was agreed that it was the responsibility of residents to obtain this information, which was available on the County Council's website.
- c) Councillor Bryan Tomlins raised concerns that Heol y Môr was being obstructed by

gan gerbydau a oedd yn gysylltiedig gyda datblygiad Stad Craig Ddu. Dywedodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ei fod wedi cael gair gyda rheolwr y safle am y pryderon hyn a bod camau yn cael eu cymryd i sicrhau fod traffig yn llifo'n rhwydd ar yr heol yma.

d) Ar gais y Cynghorydd Phil Tomlins, cytunodd y Cynghorydd Sir Dafydd Edwards ddilyn i fyny cŵyn am heigiad o lygod mawr mewn cae a ddisgrifiwyd l'r cyfarfod.

e) Roedd materion eraill a godwyd lle ni chytunwyd unrhyw weithredu yn cynnwys:

Y maes parcio a'r nant ar y Morfa Hylif selio gwaith coed y chalet  
Roedd CNC wedi hysbysu fod yr Afon Peris wedi ei brofi'n glir yn dilyn y digwyddiad diweddar o lygredd.

vehicles connected to the Stad Craig Ddu development. County Councillor Dafydd Edwards stated that he had had a word with the site manager about these concerns and action was being taken to ensure the free flow of traffic along this road.

d) At the request of Councillor Phil Tomlins, Councillor Dafydd Edwards agreed to follow up a complaint of an infestation of rats at a field identified at the meeting.

e) Other matters raised but where no action was agreed included:

Morfa car park and stream

Chalet timber sealant

NRW had stated that the river Peris had tested clear following the recent pollution incident.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:00pm

The meeting concluded at 10:00pm